| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **18fed Mawrth 2013** |
| **TEITL** | **Deddf Priffyrdd 1980**<br>**Cais i Greu drwy Orchymyn, Lwybr Cyhoeddus ar y Map Llwybrau Swyddogol rhwng Tŷ Newydd a'r Fynwent, Cymuned Corris.** |
| **PWRPAS** | **I ystyried a ddylai'r Awdurdod lunio Gorchymyn** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Y dylai Cyngor Gwynedd lunio Gorchymyn Creu dan Adran 26, Deddf Priffyrdd 1980 i greu Llwybr Cyhoeddus ar y Map Llwybrau Swyddogol o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn cyfeirio at gais i Greu ac wedi hynny i gynnal Llwybr Cyhoeddus ar hyd tir sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd yng Nghymuned Corris.

1.2 Gwneir y cais ar y sail fod y cyhoedd a Chyngor Cymuned Corris wedi gofyn i'r llwyubr yma gael ei greu ac wedi hynny yn cael ei gynnal fel hawl tramwy cyhoeddus i ddarparu (gyda llwybr presennol) lwybr cylchol cymharol fyr o ganol pentref Corris wrth hefyd wella mynediad i'r Fynwent gyhoeddus.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Mae'r mynediad i'r fynwent gyhoeddus yng Nghorris yn arbennig o serth ac yn gymaint felly fel bod ymwelwyr â'r fynwent yn cael trafferth i gerdded ar hyd y llwybr ac yn aml maent yn ddibynol iawn ar y canllawiau gerllaw. Dros y blynyddoedd mae Cyngor Cymuned Corris wedi cymryd nifer o gamau i wella'r mynediad ond nid yw hi'n ymarferol i wneud mwy heb ddod o hyd i lwybr arall iddo.

2.2 Ochr yn ochr â'r fynwent, ac yn arwain tuag at ganol y pentref, mae gwely trac cyn lein fach Rheilffordd Corris a gaewyd yn 1948. Daeth llawer o wely'r trac i feddiant cyn Gyngor Dosbarth Gwledig Dolgellau tua 1968 i'w galluogi i osod carthffosydd oddi tano. Mae'r tir yma bellach yn eiddo i Gyngor Gwynedd.

2.3 Yn 2001, fe gododd Cyngor Cymuned Corris brydles ar wely'r trac gyda'r bwriad o greu mynedfa newydd ar droed, ar ei hyd. Yn anffodus, roedd wal gerllaw yn perthyn i'r cyn reilffordd oedd yn gwyro i'r llwybr ac yn y pen draw penderfynwyd ei bod yn anniogel. Ystyriwyd fod y gost o atgyweirio'r

wal yn ormodol. O ganlyniad i hyn, ac eithrio am glirio'r llystyfiant, nid yw'r Cyngor Cymuned wedi gallu bwrw ymlaen gyda eu bwriad.

2.4 Edrychodd cynllun o welliannau dan Raglen Adfywio Ardaloedd Llechi Cyngor Gwynedd ar ymgymryd â'r gwaith arfaethedig ac fe luniwyd cynlluniau. Roedd y gost yn fwy na'r gyllideb oedd ar gael.

2.5 Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) gan ddefnyddio cronfeydd Cymunedau a Natur yr Undeb Ewropeaidd wedi hyrwyddo rhaglen o welliannau i lwybrau yn ardal Biosffer Dyfi. Er mwyn sefydlu blaenoriaethau, aed ati i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i Ymgysylltu â'r Gymuned. Y digwyddiad yng Nghorris oedd yr un ble gafwyd y mwyaf o bobl. Fe soniodd bron pawb a ymatebodd am y cynnig i wella'r fynedfa i'r fynwent ac os y gellid ei ymestyn i gwrdd â Llwybr Cyhoeddus Rhif 8, gan felly lunio llwybr cylchol byr o ganol y pentref heb iddo fod yn rhy serth. Roedd rhan o Lwybr Troed Rhif 8 ger afon Dulas, wedi ei wella yn flaenorol i bobl sy'n llai abl gan yr Uned Hawliau Tramwy gan ddefnyddio grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Llywodraeth Cymru.

2.6 Roedd CCGC yn ystyried y dylai'r gwelliant i'r llwybr i, a thu hwnt i'r fynwent fod yn flaenoriaeth. Er bod arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r gwaith byddai hyn yn dal yn annigonol i ymgymryd â'r gwaith i atgyweirio'r wal a'r gwaith gwella'r arwyneb sydd yn ofynnol. Er hynny, yn annisgwyl darparodd Llywodraeth Cymru ragor o arian grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn 2012/13. Oherwydd trafferthion o ran staff, nid oedd unrhyw gynigion wedi eu paratoi i fwrw ymlaen gyda'r grant yma ym Meirionnydd a byddai'r swm oedd ar gael ynghyd â grant CCGC rhyngddynt yn galluogi i'r gwaith gael ei wneud.

2.7 Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddatblygu'r cynigion cynharach (Cynllun Adfywio Ardaloedd Llechi) a rhoi gwaith allan i dendr, gan eu cyflwyno yn raddol yn ôl y gwahanol amodau grant (rhag ofn y byddai un grant yn annigonol neu ddim ar gael erbyn yr amser roedd y gwaith yn dechrau). Cafodd y tendr i'r ddau gyfnod eu hennill gan Gwilym James Cyf., Trawsfynydd. Dechreuodd y gwaith ar y safle ar 20ain Tachwedd 2012.

## 3.0 PERCHNOGAETH TIR

3.1 Mae pedwar perchennog tir gaiff heffeithio gan y llwybr newydd arfaethedig. Mae'r tri arall i gyd yn y broses o wneud cytundebau ffurfiol gyda'r Cyngor hwn gan ddefnyddio Adran 25, Deddf Priffyrdd 1980. Maent i gyd yn cytuno'n frwd y dylid creu'r llwybr.

3.2 Erbyn hyn mae cyn wely trac Rheillfordd Corris ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Dan y ddeddfwriaeth, nid yw Cyngor Gwynedd yn gallu gwneud cytundeb gydag ef ei hun. O'r herwydd, yr unig drefniant sydd ar gael yw i Gyngor Gwynedd lunio Gorchymyn Creu dan Adran 26, Deddf Priffyrdd 1980.

## 4.0 YMGYNGHORI

4.1 Bu ymgynghori gyda'r ymgynghorwyr statudol am y cais hwn ar 22ain Hydref 2012.

4.2

| Ymgynghorwyr | Ymateb |
|---|---|
| Undeb Beicwyr Modur | Dim ymateb |
| Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffyl | Dim ymateb |
| Cymdeithas Ceffylau Prydeinig | Dim ymateb |
| Cymdeithas y Cerddwyr | Dim ymateb |
| Cymdeithas Beicwyr Gwlad Cymru | Dim ymateb |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) | Dim ymateb |
| Clwb Teithio Beicwyr | Dim ymateb |
| Cymdeithas Yrru Prydain | Dim ymateb |
| Y Cynghorydd John Pughe Roberts | Cefnogaeth lafar |
| Cyngor Cymuned Corris | Cefnogi (wedi ei fynegi yn flaenorol) |
| Cymdeithas Mannau Agored | Dim ymateb |
| Sustrans | Dim ymateb |

4.3 Os derbynnir unrhyw sylwadau pellach yn y cyfamser byddwn yn adrodd am y rhain yn llafar yn y Pwyllgor.

## 5.0. ARGYMHELLION

5.1 Bod Cyngor Gwynedd yn llunio Gorchymyn dan Aadran 26, Deddf Priffyrdd 1980 i Greu Llwybr Cyhoeddus rhwng pwynt B ac C ar y map atodol gan gofrestru'r llwybr ar Fap Swyddogol Hawliau Tramwy Cyhoeddus i Sir Gwynedd.

5.2 Bod Cyngor Gwynedd yn trefnu'r gwaith angenrheidiol i sicrhau fod y llwybr mewn cyflwr da gan ddefnyddio cronfeydd grantiau gan CCGC a Llywodraeth Cymru.

5.3 Wedi cwblhau'r gwaith yn foddhadol bod y cyfrifoldeb am barhau i gynnal a chadw'r llwybr yn fater i'r Awdurdod Priffyrdd.

## 6.0 PAPURAU CEFNDIR

**Ffeil AM/PC/13/507**